William Barclay 1907–1978

Ysgolhaig Testament Newydd a darlledwr

Ganwyd William Barclay ar 5 Rhagfyr 1907 yn Wick, Caithness, yn unig fab i William Dugald Barclay, rheolwr banc ac efengylydd lleyg, a'i wraig, Barbara Linton McLeish. Ym 1912 symudodd y teulu i Motherwell pan benodwyd y tad yn rheolwr mewn cangen o'r Bank of Scotland. Yno disgleiriodd William yn Ysgol Uwchradd Dalziel yn enwedig mewn llenyddiaeth Saesneg. Rhannai ddiddordeb ei dad yng ngweithgareddau'r Eglwys Rydd Unedig ac ymddiddorai yn Gilbert a Sullivan a thîm pel-droed Motherwell. Enillodd radd dosbarth cyntaf yn y clasuron (1929) a gradd BD (1932) ym Mhrifysgol Glasgow cyn astudio am flwyddyn ym Mhrifysgol Marburg.

Ym mis Chwefror 1933 ordeiniwyd a sefydlwyd ef yn weinidog ar Eglwys y Drindod, Renfrew, ardal lle yr oedd mwyafrif yr aelodau yn gweithio yn y diwydiant adeiladu llongau ar yr afon Clyde. Yn yr un flwyddyn priododd Catherine Barbara Gillespie, merch y Parch. James Hogg Gillespie. Gweithiodd yn galed yn Eglwys Trinity a chymerodd yr aelodau at y gŵr annwyl hwn a siaradai gydag acen drom Swydd Lanark (Lanarkshire) ar ei wefusau. Ym 1939 dechreuodd yr Ail Ryfel Byd ac amharwyd ar fywyd y gymuned gyda bomiau, y 'blackout' a chyfyngiadau. Yn y cyfnod hwn cynyddodd ei boblogrwydd fel siaradwr cyhoeddus a chefnogwr mudiadau fel yr YMCA, y Boys' Brigade ac Undeb yr Ysgolion Sul ac awdur y *New Testament Studies* (1937). Wedi pedair blynedd ar ddeg fel gweinidog ymroddgar symudodd ef a'i deulu i Glasgow pan benodwyd ef yn ddarlithydd Testament Newydd yn y Brifysgol. Daeth i'r gadair ym 1964.

Anodd oedd gosod Barclay mewn unrhyw gategori diwinyddol. Disgrifid ef gan rai fel 'rhyddfrydwr efengylaidd'. Roedd yn ansicr am y geni gwyrthiol ac yn ystyried gwyrthiau'r Iesu fel arwydd o'r hyn y mae'r Arglwydd yn gallu ei wneud yn y presennol. Ei bwyslais mawr oedd Duw cariad a chariad rhyfeddol Duw. Y cariad hwn a'i galluogodd i ymdopi gyda'r ergyd drom a gafodd pan foddodd ei ferch yn y môr.

Cododd ei esboniadau Beiblaidd wrychyn Cristnogion ceidwadol a daeth o dan eu llach. Derbyniodd lythyr creulon dienw o Ogledd Iwerddon yn dweud, 'Lladdodd Duw dy ferch ... er mwyn ei harbed rhag cael ei llygru gan dy heresïau di.' Galwodd gweinidog eglwys fawr yng nghanol Llundain ef, 'y dyn mwyaf peryglus o fewn i Wledydd Cred'. Condemniwyd ef hefyd am ysmygu ac am gefnu ar ei fagwraeth lwyrymataliol.

Ym 1953 penodwyd ef gan y Kirk i lenwi bwlch trwy ysgrifennu darlleniadau Beiblaidd dyddiol, hyd nes y byddent yn cael gafael ar rywun arall. Ni ddaeth neb i'r adwy a pharhaodd i baratoi'r darlleniadau. Gwerthodd rhifyn 1959 o'r *Daily Study Bible* bum miliwn o gopïau. Yn y cyfnod hwn hefyd ysgrifennodd *The Mind of St. Paul (*1958*)* ac *Educational Ideas in the Ancient World (*1959). Dros y blynyddoedd cyffyrddodd ei lyfrau – cyhoeddodd dros 70 ohonynt – a'i esboniadau Beiblaidd cyfoethog fywydau miliynau o bobl ar hyd a lled y byd. Cyfieithwyd hwy i 30 o ieithoedd. Ymfalchïai mewn disgyblaeth wrth weithio – ni fyddai byth yn ysgrifennu pregeth ar ôl dydd Iau – ac mewn ysgrifennu yn ddealladwy.

Anogai ei fyfyrwyr i gael diddordebau y tu allan i gylchoedd crefydd, fel gwylio'r teledu, er mwyn iddynt wybod beth oedd yn digwydd yn y byd mawr. Yr oedd ef yn gwneud hyn ei hun trwy ei ddiddordeb mewn golff, casglu stampiau a cherddoriaeth. Er ei fod bron yn fyddar am ddeugain mlynedd roedd yn arwain côr Coleg y Drindod. Roedd yn ddyn emosiynol iawn fel y gwelir yn ei gofiant *Testament of Faith* (1975). Derbyniodd radd DD er anrhydedd gan Brifysgol Caeredin a CBE gan frenhines Lloegr ym 1969. Bu farw yn Ysbyty Mearnskirk, Glasgow, ar 24 Ionawr 1978.